



ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen; a

Chynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE o 31 Awst 2017 ymlaen

RHAGFYR 2015

Cyngor Sir y Fflint – Addysg ac Ieuenctid

Adroddiad Gwrthwynebu

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen a chynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint, CH5 1SE o 31 Awst 2017 ymlaen

Pwrpas

Cyhoeddir yr adroddiad yn unol â gofynion adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dyma grynodedb o'r gwrthwynebiadau statudol – a elwir fel arall yn "Adroddiad Gwrthwynebu".

Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol ac ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi'r cynnig drwy hysbysiad statudol o 28 diwrnod o 16 Hydref 2015 tan 16 Tachwedd 2015.

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, CH5 1SE.

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, derbyniwyd 2119 o wrthwynebiadau i'r cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers, Campws Queensferry, Ffordd Caer, Glannau Dyfrdwy, CH5 1SE o 31 Awst 2017 ymlaen.

Derbyniwyd gohebiaeth ar sawl ffurf yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynnwys:


- 43 o lythyrau unigol,
- 2 neges e-bost a
- 2074 o lythyrau a ffurfiwyd ar dempled safonol, ac o'r rheiny roedd;

- 19 yn llythyrau gwrthwynebu a lofnodwyd heb gynnwys cyfeiriad.
- 69 yn llythyrau gwrthwynebu heb fod yn glir ar ba sail yr oeddent yn gwrthwynebu'r cynnig.
- 12 yn llythyrau gwrthwynebu â dyddiad y tu allan i'r cyfnod gwrthwynebu.
- 72 yn llythyrau gwrthwynebu heb ddyddiad ond a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.
- 6 yn llythyrau gwrthwynebu a lofnodwyd gyda'r enw'n annarllenadwy.

Ym mha ardaloedd mae'r gwrthwynebwyr yn byw?

Sir y Fflint	1277
Sir Ddinbych	30
Conwy	11
Gwynedd	3
Ynys Môn	4
Caer a Gornllewin Swydd Caer	53
Cilgwri	26
Wrecsam	27
Eraill	124
CYFANSWM	1555

* Caiff y ffigur o 1555 ei adlewyrchu gan atebwyr sydd naill ai'n byw yn yr un cyfeiriad, roedd eu cyfeiriad yn anghyflawn neu'n aneglur neu nid oeddent wedi darparu cyfeiriad



Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) cyhoeddir yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn ar ffurf electronig ar wefan Cyngor Sir y Fflint sef:

www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion

I wneud cais am gopi papur o'r ddogfen hon ysgrifennwch at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, e-bost 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk neu cysylltwch â'r tîm ar 01352 704134/704015.

	Pwyntiau a godwyd (yn nhrefn y % uchaf)	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr atebion ysgrifenedig a oedd yn codi'r pwynt	% yr atebion a oedd yn codi'r pwynt
1	<p>Traffig a theithio</p> <p>Bydd lefelau traffig yn cynyddu ar briff ffordd sydd eisoes yn brysur drwy Shotton a Chei Connah, gan gynyddu ôl-troed carbon Sir y Fflint ac amser teithio pobl leol yn uniongyrchol. Bydd raid i blant sy'n teithio ar droed adael yn gynharach am yr ysgol, ac mewn rhai achosion hyd at awr yn gynharach, gan gerdded ar hyd llwybrau peryglus ac/neu anaddas, yn arbennig yn ystod y gaeaf.</p> <p>Methu â mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol.</p>	<p>Codwyd pryderon am gludiant yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ystod y cyfnod hwn ymrwymodd y Cabinet i dderbyn adroddiad llawn ar wahân ar opsiynau cludiant o ganlyniad i'r cynnig.</p> <p>Aethpwyd ag adroddiad i'r Cabinet ar yr opsiynau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers ar 17 Tachwedd 2015.</p> <p>Penderfynodd y Cabinet y byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn ôl doethineb i'r cohort o ddisgyblion presennol i'r ysgol bartner (cludiant o ardal y cartref) pe bai'r Gweinidog yn penderfynu y dylid cau'r ysgol.</p> <p>I rieni a disgyblion sy'n dewis ysgol arall, caiff cymhwyster cludiant ei ystyried yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth drwy'r polisi presennol i lwybrau a dybir sy'n beryglus gan</p>	1325	63%

		<p>yr ymgeisydd. Dolen i'r polisi: http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf</p> <p>Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim yn yr Awdurdod ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol.</p> <p>Mae canran uchel (73%) o gohort presennol Ysgol Uwchradd John Summers yn byw llai na 3 milltir o'r ysgol bartner.</p>		
2	<p>Costau cludiant</p> <p>Mae gan rai teuluoedd nifer o blant yn mynychu'r ysgol a byddant yn cael anhawster neu'n methu â fforddio anfon eu plant i ysgol arall. Yn ogystal â hyn, nid oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus uniongyrchol i ddwy allan o'r dair ysgol uwchradd agosaf.</p>	<p>Ddydd Mawrth 17 Tachwedd, cymeradwyodd Cabinet yr Awdurdod Lleol y bwriad i wneud trefniadau cludiant yn ôl doethineb ar gyfer y cohort disgyblion cyfan presennol i'r ysgol bartner (darparu cludiant o ardal y cartref), pe bai'r Gweinidog yn penderfynu cau'r ysgol.</p> <p>I rieni a disgyblion sy'n dewis ysgol arall, caiff cymhwyster cludiant ei ystyried yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.</p>	1245	59%
3	<p>Cyflawniadau a chanlyniadau</p> <p>O edrych ar ganlyniadau eleni'n arbennig, cyflawnodd Ysgol Uwchradd John Summers well canlyniadau na'r ysgolion lleol eraill.</p>	<p>Mae'r datganiad hwn yn anghywir ac mae canlyniadau cyffredinol wedi'u hadrodd yn anghywir.</p> <p>Yn y canlyniadau lefel 2 cynhwysol (5 TGAU A* i C gan gynnwys Saesneg a mathemateg) a ddefnyddir fel meincnod gan Lywodraeth Cymru, canlyniad Ysgol Uwchradd John Summers oedd 30%.</p> <p>Mae system gategoreiddio genedlaethol Llywodraeth Cymru (Rhag 2014) yn dangos fod Ysgol Uwchradd John Summers, yn nghategori 4 (ar raddfa o 1-4) ac mae'r rheiny yn grŵp safonau 4 yn dangos yr angen mwyaf i</p>	1214	57%

		<p>wella'u perfformiad.</p> <p>Mae gallu'r ysgol i wella yn C (A-D) gydag A yn dangos y gallu mwyaf i wella'u hunain a D yn dangos y gallu lleiaf.</p> <p>Mae categori cymorth yr ysgol yn Amber. Diffinnir categori Amber gan Lywodraeth Cymru fel ysgol sydd angen gwella ac sydd angen help i nodi camau i wella neu wneud i newidiadau ddigwydd yn gynt. Trwy drafodaethau â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) a'r Awdurdod Lleol, bydd yr ysgol yn derbyn pecyn cymorth wedi'i addasu.</p> <p>Mae'r system gategoreiddio genedlaethol yn ffordd glir a syml o ddeall pa mor dda mae ysgol yn perfformio ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y mae'n cael ei harwain a'i rheoli, safon yr addysg a'r dysgu a lefel y cymorth a'r her sydd ei angen arni i wneud yn well. Mae'r system yn seiliedig ar broses tri cham:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Grŵp Safonau: defnyddir ystod o ddata gan Lywodraeth Cymru i wneud dyfarniad am y safonau, gan arwain at grŵp safonau. 2. Gallu i Wella: mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) yn cynnal gwerthusiad o allu'r ysgolion i wella ymhellach, gan gymryd i ystyriaeth y dystiolaeth am safonau ac ansawdd arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, sydd wedyn yn arwain at allu i wella. 3. Categori Cymorth: cyfuno'r dyfarniad ynglŷn â'r grŵp safonau a'r gallu i wella er mwyn penderfynu ar gategori cymorth yr ysgol ar sail cod lliw gwyrdd, melyn, amber neu goch. Bydd GwE a'r Awdurdod Lleol yn cytuno ar hyn. <p>Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn datgan 'Ym mhob</p>		
--	--	---	--	--

		<p>achos, rhaid i'r disgyblion presennol mewn ysgol ble mae'r ddarpariaeth yn cael ei gostwng neu ei therfynu allu parhau i dderbyn addysg sy'n darparu safonau cyfatebol a chyfleoedd i wneud cynnydd yn eu cyfrwng iaith presennol o leiaf.'</p> <p>Os bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori y bydd y rhwydwaith ysgolion lleol yn gallu darparu addysg o safon gyfatebol o leiaf a hefyd yn cynnig cyfle i wneud cynnydd.</p> <p>Mae gwerthusiad annibynnol o'r newid arfaethedig yn Ysgol Uwchradd John Summers wedi'i gyhoeddi gan Estyn, sef Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru. Dywedodd Estyn fod y ddogfen ymgynghori yn darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig i gau yn seiliedig ar strategaeth y Cyngor a nifer y disgyblion a ragwelir. Mae Estyn o'r farn y bydd effaith y cynnig yn cynnal y safonau addysg presennol o leiaf yn yr ardal. Bydd datblygu canolbwynt dysgu ôl-16-18 yn cynnig ystod fwy eang o gyrsgiau academaidd a galwedigaethol i ddysgwyr ac ni fydd cau Ysgol Uwchradd John Summers yn rhoi disgyblion presennol dan unrhyw anfantais ddi-angen.</p>		
4	<p>Natur gynhwysol yr ysgol</p> <p>Mae plentyn o grŵp ethnig/diwylliannol llai yn teimlo'n werthfawr ac yn aelod cyfartal o gymuned yr ysgol. Mae'n teimlo na fyddai hynny'n wir mewn ysgol arall.</p> <p>Bydd modd i ysgol uwchradd lai sydd â llai o ddisgyblion roi sylw i fanylion sy'n ofynnol i gynorthwyo pobl ifanc yn yr ardal.</p>	<p>Caiff natur gynhwysol yr ysgol ei chydabod yn bositif. Fodd bynnag, mae ymarfer cynhwysol llwyddiannus, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru, i'w weld hefyd mewn ysgolion lleol eraill ac mae ystod o asemiadau ac ymyriadau ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol y disgyblion.</p> <p>Mae gwybodaeth bresennol am berfformiad yn dangos fod ysgolion cyfagos yn cael gwell canlyniadau i ddysgwyr yn gyffredinol, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael</p>	1142	54%

		<p>prydau ysgol am ddim. Roedd canlyniadau data a gyhoeddwyd (Rhagfyr 2014) ar system categoreiddio ysgolion cenedlaethol Llywodraeth Cymru ymysg yr isaf yng Nghymru.</p> <p>Edrychodd adroddiad Estyn (Rhagfyr 2013), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ar faint ysgolion a'u heffeithiolrwydd. Roedd eu canfyddiadau'n groes i'r honiad y gall ysgolion llai ddarparu mwy o sylw i ddisgyblion.</p> <p>Mae gan ysgolion eraill yn yr ardal leol eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain a bydd ganddynt ethos o hybu cydraddoldeb, dileu camwahaniaethu a hyrwyddo cydberthnasau da.</p> <p>Mae cynlluniau pontio manwl yn dal i gael eu datblygu ag Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgolion eraill yn yr ardal. Caiff cymorth i grwpiau sy'n agored i niwed, megis disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), grwpiau Sipsiwn/Teithwyr, Plant sy'n Derbyn Gofal eu blaenoriaethu wrth gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio.</p> <p>Daeth Estyn i'r casgliad fod gan y Cyngor Sir ddyletswydd gyfreithiol i edrych ar y nifer a'r mathau o ysgolion sydd ganddo yn Sir y Fflint ac mae gofyn iddo sicrhau eu bod yn ateb gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.</p> <p>Mae Estyn o'r farn y bydd effaith y cynnig yn cynnal y safonau addysg presennol o leiaf yn yr ardal. Bydd datblygu canolbwynt ôl-16 yn cynnig ystod eang o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol i ddysgwyr ac ni fydd cau</p>		
--	--	--	--	--

		Ysgol Uwchradd John Summers yn rhoi'r disgyblion presennol dan unrhyw anfantais ddi-angen.		
5	<p>Busnesau Lleol</p> <p>Mae rhieni a disgyblion yn gwario arian ar ein stryd fawr leol a byddai hynny'n newid pe bai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau.</p>	<p>Caiff economi Glannau Dyfrdwy ei gynorthwyo gan weithgynhyrchu yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a chyflogwyr mawr fel Airbus ym Mrychdyn.</p> <p>Ni fydd y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers yn cael effaith negyddol ar economi'r ardal, ac mae gan gyflogwyr gysylltiadau positif sefydledig ag ystod eang o ysgolion a darparwyr addysg lleol.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd y cynnig yn cael effaith ar nifer fach o siopau annibynnol yn yr ardal sy'n elwa o fasnach disgyblion sy'n mynd heibio ar hyn o bryd.</p>	1115	53%
6	<p>Dewis y rhieni</p> <p>Dewisodd y rhieni anfon eu plant i Ysgol Uwchradd John Summers, os bydd yn cau rydych yn mynd â'r dewis hwn oddi wrthyn nhw.</p>	<p>Mae Deddf Addysg 1944, c.31, Rhan II, Darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd', adran 8 yn disgrifio'r ddyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd.</p> <p>Mae'n ddyletswydd statudol i'r Cyngor ddarparu'r nifer gywir o leoedd yn y lleoliadau cywir. Wrth ymateb i'r her hon, mae angen i'r Cyngor roi'r ddarpariaeth addysgol orau i'r ardal, gan gymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth bresennol, problemau cymunedol, ffactorau demograffaid, cyflwr adeiladau'r ysgolion, lleoedd dros ben a safon yr amgylchedd addysgu a dysgu.</p> <p>O dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid i'r awdurdod lleol, fel awdurdod derbyn, wneud trefniadau i alluogi rhieni neu unigolion ifanc i ddewis ysgol. Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r dewis hwnnw'n amodol ar y disgwyliadau a osodir yn Neddf</p>	1071	51%

		1998. Os caiff y cynnig i gau Ysgol John Summers ei gymeradwyo, bydd rhieni a phobl ifanc yn parhau i gael dewis ysgolion eraill yn yr ardal.		
7	<p>Ymgynghoriad</p> <p>Nid oedd y broses ymgynghori'n ymgysylltu'n llawn â phawb a oedd â diddordeb. Ni fu unrhyw drafodaethau uniongyrchol ag unrhyw un o staff, rhieni a phlant yr ysgolion bwydo. Ymddengys nad yw ysgolion uwchradd lleol eraill a'u hysgolion bwydo yn ymwybodol o'r effaith y byddai cau Ysgol Uwchradd John Summers yn ei gael.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion Statudol. Er nad yw cyfarfodydd yn ofynnol gan y cod yn genedlaethol, mae'r Cyngor wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau arbennig gyda disgyblion, staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd â chynrychiolwyr o'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos a effeithir.</p> <p>Mae'r rhwydwaith ysgolion lleol yn gwbl ymwybodol o effaith y posibilrwydd o gau'r ysgol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r rhwydwaith lleol o ysgolion uwchradd gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers ers i'r Cabinet benderfynu cynnal adolygiad. Bydd gwaith manwl yn dal i gael ei wneud ar drefniadau pontio os bydd y Gweinidog yn penderfynu y dylid cau'r ysgol.</p> <p>Rhodddwyd naill ai dolenni i wefan y Cyngor neu gopiâu papur o'r ddogfen ymgynghori i'r ymgynghoreion. Cynhyrchodd y Cyngor fersiwn ar gyfer oedolion ac un ar gyfer plant a phobl ifanc o'r dogfennau ymgynghori, ynghyd â'r arfarniadau effaith priodol.</p> <p>Derbyniodd Cyngorwyr y pecyn llawn o bob gohebiaeth o'r cyfnod ymgynghori gan gynnwys barn plant a phobl ifanc, ynghyd â'r adroddiad ymgynghori, a oedd yn rhoi crynodeb o brif bryderon pob un o'r ymgynghoreion, gan fod themâu cyffredin rhwng rhai'r oedolion a'r plant a phobl ifanc.</p> <p>Mae'r prif bryderon, gan oedolion a phlant a phobl ifanc a</p>	1028	49%

		<p>oedd yn cynnwys cludiant a threfniadau pontio sy'n cwmpasu pryderon ynglŷn â pharhad addysg a gofal fugeiliol, wedi'u hadlewyrchu drwy'r broses ddemocrataidd yn adroddiadau'r Cabinet a Chraffu.</p> <p>Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad yn eang ac adlewyrchir hynny yn nifer uchel yr ymatebion i'r ymgynghoriad.</p>		
8	<p>Pryderon am ddyfodol staff yn Ysgol Uwchradd John Summers</p> <p>Mae pob aelod o staff yn Ysgol Uwchradd John Summers yn darparu addysg a gofal fugeiliol o safon ardderchog i'n plant a bydd disgwyl iddynt barhau i wneud hynny er gwaethaf y golled bosibl i'w bywoliaeth. Os yw staff yn teimlo'r angen i chwilio am waith arall, gallai hynny arwain at orfod defnyddio athrawon llanw i addysgu'r plant a allai amharu arnynt ac atal parhad gofal a dysgu sydd ei angen ar y disgyblion.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn derbyn y gall y cynigion a weinyddir drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion arwain at ansicrwydd ymysg disgyblion, staff a'r gymuned ehangach.</p> <p>Dywedodd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers yn y gorffennol yr hoffent osgoi cyfnod hir o ansicrwydd i'r ysgol a'r gymuned.</p> <p>Mewn trafodaethau cynnar nodwyd y posibilrwydd o staff yn ymadael i chwilio am waith yn rhywle arall yn ystod cyfnod o ansicrwydd ac roedd yn un o'r prif resymau dros bennu dyddiadau posibl ar gyfer cau'r ysgol.</p> <p>Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n ofynnol yn unol â'r gyfraith i Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers sicrhau fod yr ysgol yn gallu cynnig cyfleoedd cwricwlaidd o safon a dyfnder priodol fel y diffinnir ym Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru.</p>	1027	48%
9	<p>Mae gan ysgolion uwchradd eraill yn Sir y Fflint nifer debyg o leoedd dros ben i ddisgyblion</p> <p>Nid yw'r rhain yn cael eu hystyried i'w cau, sy'n rhoi'r argraff fod Ysgol Uwchradd John Summers yn cael ei neilltuo'n anheg.</p>	<p>Bydd y Cyngor yn edrych ar ysgolion eraill fel rhan o raglen moderneiddio ysgolion barhaus. Fodd bynnag ni ellir adolygu pob ysgol ar yr un pryd, gan fod angen blaenoriaethu, rheoli a chyflwyno'r gallu a'r cyllid i gefnogi newid, dros gyfnod o flynyddoedd. Mae Cabinet y Cyngor Sir yn awdurdodi pob cyfnod o'r gwaith adolygu sy'n digwydd yn y Sir.</p>	992	47%
10	Pontio	Sefydlwyd grŵp cynrychiadol o Benaethiaid Uwchradd i	967	46%

		<p>ddatblygu a gwerthuso modelau addysgol y dyfodol ar gyfer yr ardal gan gynnwys Penaethiaid Ysgol Uwchradd John Summers, Ysgol Uwchradd Penarlâg, Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney.</p> <p>Roedd y grŵp hwn yn rhan annatod o ddatblygiad yr amserlen Cynnig Statudol a'u prif ystyriaeth oedd yr effaith ar ddysgwyr. Arweiniodd eu mewnbwn yn uniongyrchol at benderfynu amseru'r bwriad i gau Ysgol Uwchradd John Summers fesul cam sef ôl-16 o fis Medi 2016 ymlaen a chau'r ysgol (11-16) o fis Medi 2017 ymlaen. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r amserlen ar gyfer y Cod, penderfyniad y Gweinidog ac alinio i ddewisiadau yn yr ysgolion lleol.</p> <p>Mae'r grŵp cynrychiadol wedi parhau i gyfarfod i weithio ar gynlluniau pontio manwl rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2015. Mae hyn wedi arwain at benderfyniad ar y cyd rhwng yr ysgolion a effeithir ynglŷn â'r model pontio gorau i'w weithredu ar gyfer pontio Blwyddyn 10 o Ysgol Uwchradd John Summers. Mae pob ysgol a'r ALI wedi ymrwmo i gyflawni'r gweithgareddau a gytunwyd i wneud y broses bontio mor esmwyth ag sy'n bosibl. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys cynllun wrth gefn os na fydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad cyn y terfyn amser a nodir yn y Cod. Mae'r amserlen ar gyfer cau a'r cynllun pontio y mae'r Awdurdod yn ei hyrwyddo, yn paratoi ar gyfer y ddwy sefyllfa ac yn darparu'r dewis gorau ar gyfer parhad addysg.</p> <p>Cytunodd GwE fod y cynllun ar ei ffurf presennol yn bositif a'i fod yn darparu gwell dewisiadau. Mae'r</p>		
--	--	---	--	--

		<p>cynlluniau pontio wedi cael ymateb bositif gan Estyn hefyd yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Codwyd awgrym gan y Pwyllgor Arolygu a Chraffu i gael gwared ar flwyddyn TGAU yr ysgol erbyn mis Medi 2016 neu eu cadw gyda'i gilydd. Yng nghyfnod dechreuol y broses gynllunio, dyma oedd y man cychwyn ar gyfer y grŵp cynrychiadol. Fodd bynnag, mae nifer o resymau pam nad oes modd gorfodi hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ni fyddai'n ateb gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â'r broses cyn penderfynu; • ni fyddai'n darparu cadernid i leihau'r risgiau ar gyfer parhad TGAU pe bai oedi ym mhenderfyniad y Gweinidog; • ni fyddai'n darparu cadernid i Ysgol Uwchradd John Summers i gynnig cwricwlwm o ehangder priodol; • diffyg rhyngweithio ag amseriad a chyhoeddi opsiynau i ddysgwyr; • diffyg cydgysylltiad â gwaith yr ysgolion ar ddylunio'r cwricwlwm; a • diffyg cydgysylltiad â phenderfyniadau staffio'r ysgolion. 		
11	<p>Anghenion Ychwanegol</p> <p>Mae nifer o blant yn derbyn cymorth ychwanegol yn Ysgol Uwchradd John Summers, ac ni fyddai'r cymorth hwnnw yr un peth mewn ysgolion eraill lle mae maint y dosbarthiadau'n fwy.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd pob cam ymarferol i amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar bob disgygl drwy greu cynlluniau pontio gofalus gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Ar ôl i'r disgyblion, rhieni a gofawyr benderfynu ar eu lleoliadau newydd, bydd Swyddogion Cynhwysiant yn</p>	680	32%

		<p>cynllunio cyfnod pontio i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Os oes gan yr unigolyn ifanc Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth, bydd gofyn i'r ysgol gynnal cyfarfodydd adolygu blynyddol. Mae gan bob unigolyn ifanc swyddog a enwir a byddent yn mynychu'r cyfarfodydd i arolygu'r cynllun pontio arfaethedig a chynorthwyo i weithredu'r camau gweithredu a gytunwyd.</p> <p>Caiff cyllid yr ysgol ei arwain gan y disgyblion. Caiff y gyllideb neilltuedig ar gyfer ADY ei ddyrannu yn ôl fformiwla i ysgolion neu ei dargedu at ddisgyblion unigol a byddai'r ysgolion sy'n ei dderbyn yn derbyn cyllid ychwanegol.</p> <p>Rhaid i bob ysgol roi ystyriaeth ddyledus i God Ymarfer AAA Cymru, sy'n amlinellu'n glir gofynion asesu ac ymyrryd i ddisgyblion a nodir ag AAA. Mae Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn agored i gael ei ddehongli ac mae'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i gyflawni cysondeb. Mae pob ysgol uwchradd yn Sir y Fflint wedi ymateb yn bositif i'r bwriad i ddyrannu cyllid canolog ar gyfer ADY ac maent wedi'i ddefnyddio ynghyd â ffynonellau ariannu eraill gan LIC i ddatblygu ac ymestyn eu darpariaeth ar gyfer ystod eang o anghenion. Mewn rhai ysgolion mwy, oherwydd fod mwy o gyllid ar gael iddynt, mae dewis mwy cynhwysfawr o gymorth ar gael.</p> <p>Nid oes gan Ysgol Uwchradd John Summers ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y sir gyfan, yn wahanol i ysgolion uwchradd eraill fel Ysgol Uwchradd Penarlâg (Dyslecsia), Ysgol Uwchradd Argoed (Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu Cymdeithasol), Ysgol Elfed (Cymdeithasol ac Emosiynol)</p>		
--	--	---	--	--

		ac Ysgol Uwchradd Alun (Nam ar y Clyw). Gan hynny byddai disgwyl i ddisgyblion allu cael y cymorth a'r ymyrraeth sydd eu hangen arnynt o ysgol uwchradd brif ffrwd arall.		
12	Lles emosiynol y plant, sut y bydd cau/symud ysgol yn effeithio arnynt	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn y gall newid trefniadaeth ysgol amharu ar ddisgyblion, staff a chymunedau.</p> <p>Bydd y grŵp cynrychiadol o Benaethiaid yn parhau i gyfarfod a bydd yn rhan annatod o'r broses cynllunio pontio.</p> <p>Rhoddir blaenoriaeth i adnabod grwpiau sy'n agored i niwed fel disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), disgyblion sipsiwn/teithwyr, plant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn sicrhau parhad y cymorth a roddir i ddysgwyr unigol drwy'r Gwasanaeth Cynhwysiant.</p> <p>Ar ôl i ddisgyblion, rhieni a gofawyr benderfynu ar leoliadau newydd, bydd Swyddogion Cynhwysiant yn creu cynlluniau pontio ar gyfer pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Os oes gan yr unigolyn ifanc Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth, bydd gofyn i'r ysgol gynnal cyfarfodydd adolygu blynyddol. Mae gan bob unigolyn ifanc swyddog a enwir a fyddai'n mynychu'r cyfarfodydd i arolygu'r cynllun pontio arfaethedig a chynorthwyo i weithredu'r camau gweithredu a gytunwyd.</p> <p>Mae proses adolygu debyg mewn lle ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan y Cyngor hefyd. Mae gan bob unigolyn ifanc swyddog addysg dynodedig a fyddai'n gweithio gyda phawb dan sylw i sicrhau cyfnod pontio</p>	584	28%

		<p>esmwyth ac effeithiol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau ar wahân i gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol a hefyd cymunedau Sipsiwn/Teithwyr. Os yw pobl ifanc yn derbyn ymyrraeth unigol, byddai'n trosglwyddo i'r ysgol newydd. Mae gan Swyddogion hefyd rôl allweddol i gynorthwyo dealltwriaeth ddiwylliannol. Maent yn cynnig hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth pob lleoliad addysgol. Mae ganddynt gysylltiadau sefydliedig â phob ysgol uwchradd a nodir fel rhan o'r cynnig ac maent wedi cynorthwyo pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i gyflawni llwyddiant. Mae gan swyddogion rôl i'w chwarae hefyd mewn datblygiad a chydgyssylltiad cymunedol, gan weithio fel eiriolwyr a chyfryngwyr ar adegau rhwng pobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion. Mae pwysigrwydd yr agwedd hon ar rôl y Cyngor yn cael ei gydnabod os cytunir ar y cynnig i gau'r ysgol.</p> <p>Yn y gorffennol, mae cydweithio rhwng pob ysgol yng nghonorsortiw Gogledd Sir y Fflint wedi llwyddo i integreiddio disgyblion mewn grwpiau addysgu a rennir.</p> <p>Mae'r ALI yn cydnabod fod angen cynnal ffrydiau cyfathrebu agored ag Ysgol Uwchradd John Summers i sicrhau fod cymuned yr ysgol gyfan yn cael gwybodaeth gyfredol a chywir ynglŷn â'r broses benderfynu.</p>		
13	Effaith cau'r ysgol ar y Gymuned	Mae'r Gymuned yn defnyddio'r cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd John Summers, fodd bynnag nid yw'n cael ei defnyddio'n eang. Os bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau bydd y cyfleusterau cymunedol yn dal i fod ar gael yn Ysgol Gynradd Queensferry ar yr un	26	1%

		<p>campws ac yn y Ganolfan Hamdden gyferbyn â champws yr ysgol.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau eraill ar gyfer safle Ysgol Uwchradd John Summers os bydd yn cau.</p> <p>Bydd buddsoddi cyfalaf yn Ysgol Gynradd Queensferry yn parhau a bydd yn cael ei datblygu fel rhan o raglen ysgolion yr 21ain Garrif y Cyngor.</p> <p>Bydd y cabinet yn penderfynu ar gynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol ac mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i warantu fel rhan o'r penderfyniad cynharach.</p>		
14	Mae'r ysgol mewn ardal ddifreintiedig a dylai gael ysgol uwchradd	<p>Mae gwybodaeth am berfformiad presennol yn dangos fod ysgolion cyfagos yn cael gwell canlyniadau i ddsygwyr yn gyffredinol, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.</p> <p>Ni fydd y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers yn effeithio ar waith Cymunedau'n Gyntaf ynyr ardal na'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Cymunedau'n Gyntaf.</p> <p>Mae gan ysgolion uwchradd eraill yn y rhwydwaith ardaloedd sydd wedi'u nodi fel ardaloedd clwstwr Cymunedau'n Gyntaf gan Lywodraeth Cymru, sef Ysgol Uwchradd Cei Connah.</p>	18	0.8%
15	Nid yw Datblygiad Tai arfaethedig Porth y Gogledd wedi cael ystyriaeth lawn	<p>Cafodd y rhagamcanion ar gyfer cynnyrch tai ar gyfer datblygiad Porth y Gogledd eu herio a'u hateb yn llawn yn y cam 'oedi ac adolygu'. Nid oes unrhyw wybodaeth newydd i'w hadrodd am fwriadau'r datblygwyr ac nid oes</p>	13	0.6%

		<p>unrhyw geisiadau materion a gadwyd yn ôl wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio fel sy'n ofynnol cyn dechrau adeiladu tai. Caiff Porth y Gogledd ei ddatblygu dros gyfnod o amser o 2017-2018. Bydd pa mor gyflym y caiff y seilwaith ei ddatblygu, cynlluniau perchnogion/datblygwyr y safle, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd presennol a ffactorau eraill sy'n anrhagweladwy i gyd yn cyfyngu ar ba mor gyflym y caiff Porth y Gogledd ei ddatblygu. Mae hyn yn wir o hyd.</p> <p>Mae'r fformiwla cynnyrch tai wedi cael ei adolygu ar sail gwybodaeth newydd o'r cyfrifiad. O ddefnyddio'r fformiwla tai newydd (0.15 ym mhob cartref ar gyfer ysgolion uwchradd heb ôl-16) byddai cyfanswm y 'cynnyrch' plant oedran uwchradd sy'n gymwys i gael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers yn gostwng o'r uchafswm o 231 a gynhyrchwyd yn y cam oedi ac adolygu i ffigwr newydd o 199. Os tybir fod y cohort llawn hwn o blant yn cael eu derbyn i John Summers byddai'r boblogaeth yn dal i fod oddeutu 504 o ddisgyblion (gan ddefnyddio rhagamcan 2016/17 sef 305 ac uchafswm o 199 o ganlyniad i'r tai) pan gyfunir yr holl ragamcanion hyn. Uchafsymiau yw'r rhain ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth y gallai rhieni ddewis ysgolion eraill i'w plant.</p> <p>Gellir cyfuno hyn â'r gostyngiad mewn rhagamcanion disgyblion, y gyfradd enedigaethau a'r gyfradd drosglwyddo isel o ysgolion cynradd i Ysgol Uwchradd John Summers yn y gorffennol.</p>		
16	Bydd llai o leoedd mewn ysgolion cyfagos ac ni fydd hynny'n	Mae data meincnodi cenedlaethol 2015 yn cadarnhau fod gan Sir y Fflint 2292 o leoedd heb eu llenwi yn ei ysgolion	12	0.6%

	fanteisiol i unrhyw ysgol	<p>uwchradd. Mae hyn yn dal i fod yn uwch na'r targed Gweinidogaethol a lleol o 10%.</p> <p>Gan fod cyllid ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar niferoedd disgyblion, mae lleoedd dros ben yn golygu fod swm anghymesur o gyllid yn cael ei wario ar seilwaith (megis adeiladau) a "chostau sefydlog" rhedeg ysgol (megis arweinyddiaeth a gweinyddu).</p> <p>Gellid defnyddio'r cyllid mewn ffordd well i sicrhau fod cymarebau disgyblion athrawon yn cael eu gostwng i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Wrth i gyllid gwasanaethau cyhoeddus ostwng dros y blynyddoedd nesaf mae ailflaenoriaethu a newid yn dod yn achos mwy cymhellol.</p>		
17	Cysylltiadau teuluol: Mae plant gwrthwynebwyr wedi mynychu'r ysgol a hoffai'r gwrthwynebwyr i'w plant fynychu'r ysgol uwchradd yn y dyfodol.	<p>Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn fater dadleuol ac emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ac athrawon presennol ac o'r gorffennol gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol a'u cefndiroedd personol eu hunain. Mae'r Cyngor yn wynebu'r her o gael cydbwysedd rhwng sensitifrwydd tuag at deimladau'r gymuned ar un llaw a darparu addysg uwchradd o safon uchel y gellir ei gynnal a'i fforddio wrth i gyllidebau Cyngorau ostwng ymhellach dros y blynyddoedd nesaf. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau am y dyfodol sydd er budd disgyblion a myfyrwyr Sir y Fflint.</p>	6	0.3%
18	Llygredd a diffyg gonestrwydd AS lleol a'r Cyngor	<p>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion wedi cael ei ddilyn. Mae holl ddogfennau'r Cyngor wedi'u cyhoeddi ac ar gael ar wefan y Cyngor. Mae pob cyfarfod democrataidd ar agor i'r cyhoedd a chyhoeddir pob dogfen ar wefan y cyngor.</p> <p>Mae holl weithgareddau'r Cyngor yn destun Archwiliad</p>	3	0.1%

		<p>priodol.</p> <p>Mae ASau wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac mae eu gohebiaeth ar gael.</p>		
19	Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sy'n anghyfreithlon	Nid yw Cyngor Sir y Fflint wedi gweithredu'n anghyfreithlon.	2	0.1%
20	Gellid gwneud arbedion mewn meysydd eraill	<p>Mae'r Cyngor yn gorfod arbed dros £50 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Addysg ac leuenctid yw'r adran sy'n gwario fwyaf yn yr Awdurdod. Mae'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen megis ysgolion a gofal cymdeithasol, ond mae hynny'n costio i wasanaethau eraill sy'n wynebu gostyngiadau mawr.</p> <p>Newid Trefniadaeth Ysgolion yw un o'r ffyrdd i sicrhau fod cymarebau disgyblion athrawon yn cael eu gwarchod yn gymharol.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus a ddechreuodd ar 16 Tachwedd. Mae cymunedau lleol wedi cael cyfle i chwarae rhan ac ymgymryd â chyfleusterau a gwasanaethau lleol na fydd y Cyngor Sir yn gallu eu darparu bellach.</p> <p>Mae gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol dan fygythiad oherwydd y gostyngiadau mawr mewn gwariant cyhoeddus.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi arbed dros £22m dros y tair blynedd diwethaf. Ar yr un pryd rydym wedi llwyddo i warchod gwasanaethau allweddol megis cynnal a chadw ffyrdd, cadw cymunedau'n lân a thaclus, canolfannau hamdden, ysgolion lleol, cymorth a gwasanaethau lles i bobl hŷn, plant sy'n agored i niwed a phobl ag anableddau.</p>	2	0.1%

		<p>Ond rhwng nawr a 2018 mae'r rhagolygon yn llwm wrth i'r Cyngor wynebu bwch pellach o £53m yn y gyllideb. Eleni rydym wedi arbed £18.3m tuag at y targed hwn, ond rydym bellach wedi cyrraedd 'trobwynt'. Mae'r cyllid grant blynyddol gan y Llywodraeth i dalu am wasanaethau lleol yn gostwng bob blwyddyn. Sir y Fflint yw un o'r Cyngorau sy'n derbyn y lleiaf o arian yng Nghymru ac rydym yn codi'r gyfradd Dreth Gyngor gyfartalog yng Nghymru, ond mae'r cyllid isel hwn a dderbyniwn yn ein gwneud yn agored i ostyngiadau cyllidebol ar lefel arbennig o uchel.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i ddod o hyd i atebion a chredwn y gallwn arbed tua £14m o'r £21m angenrheidiol y flwyddyn nesaf. Os gallwn weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion pellach er enghraifft cyfyngu ar gyfanswm y grant a gollwn, a derbyn cyfran o'r cyllid newydd ar gyfer iechyd i ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol ataliol yn uniongyrchol, credwn y gallwn wneud cam mawr ymlaen i bontio'r bwch hwn yn y gyllideb. Heb yr atebion hyn, bydd gwasanaethau yr ydym wedi llwyddo i'w gwarchod hyd yma mewn perygl.</p>		
--	--	--	--	--

Casgliad

Fel yr amlinellwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae'r cynigion hyn yn cynnwys newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 (o 31 Awst 2016) a chau Ysgol Uwchradd John Summers 11-16 (o 31 Awst 2017). Mae dogfen statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan yn glir fod angen i Weinidog Cymru gymeradwyo unrhyw fwriad i gau ysgol sy'n effeithio ar ddarpariaeth ôl-16. Gan hynny mae manylion yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd wedi'u hanfon ymlaen at Weinidog Cymru, yn unol â'r Cod ac rydym yn aros am benderfyniad y Gweinidog ynglŷn â'r cynnig.